Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Sut i fodloni gofynion hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru (PRTL)

Canllaw ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol sydd wedi eu cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru

Manylion cyswllt
Gofal Cymdeithasol Cymru
South Gate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW
Ffôn: 0300 3033 444
Minicom: 029 2078 0680
E-bost: gwybodaeth@gofal
cymdeithasol.cymru

Twitter: @GofCymdeithasol
© 2019 Gofal Cymdeithasol Cymru

Cedwir pob hawl. Ni ellir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ei storio mewn system adalw neu ei drosglwyddo mewn unrhyw ffurf neu drwy unrhyw fodd heb ganiatâd ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw. Dylid anfon ymholiadau am atgynhyrchu y tu allan i'r cwmpas a ganiateir yn benodol gan y gyfraith at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddir uchod.

Fformatau eraill:
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. Mae copïau o'r ddogfen ar gael mewn print bras neu fformatau eraill, os oes angen.

Cynnwys

Cyflwyniad.....3

Diben hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru.....3

Faint o hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru sydd ei angen?.....3

Pa gofnodion y mae angen i mi eu cadw?.....3

Pa weithgareddau sy'n cyfrif fel hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru?.....4

Beth yw cyfrifoldeb fy nghyflogwr?.....5

Arweiniad ar gyfer pobl hunangyflogedig 5

Arweinwyr ar gyfer gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso.....5

Arweiniad ar gyfer gweithwyr asiantaeth.....5

Gweithwyr rhan-amser.....5

Pobl sydd wedi cofrestru nad ydynt yn ymarfer ar hyn o bryd.....6

Pwyntiau allweddol i'w cofio.....6

Adnoddau ychwanegol.....6

Cyflwyniad

Mae Rheolau (Cofrestru) Gofal Cymdeithasol Cymru yn nodi'r gofynion hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru y mae'n rhaid i bob gweithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol eu bodloni er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i gofrestru gyda ni.

Bwriad y canllaw hwn yw eich helpu chi i ddeall eich gofynion hyffoddiant a dysgu ôl-gofrestru a'u cyflawni, ac mae ar gyfer yr holl weithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol sydd wedi eu cofrestru gyda ni:

- gweithwyr cymdeithasol
- rheolwyr a gweithwyr gofal preswyl i blant
- rheolwyr cartrefi gofal i oedolion
- rheolwyr gofal yn y cartref
- gweithwyr gofal yn y cartref.

Diben hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru
Mae Adran 6 y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol yn gofyn i chi:

"fod yn atebol am ansawdd eich gwaith a chymryd cyfrifoldeb am gynnal a datblygu gwybodaeth a sgiliau… mae hyn yn cynnwys ymgymryd â dysgu a datblygiad perthnasol i gynnal a gwella eich gwybodaeth a'ch sgiliau i sicrhau eich bod yn addas i ymarfer…".

Felly, mae'n rhaid i chi gadw eich hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru er mwyn i chi gyflawni eich rhwymedigaethau i'r Côd Ymarfer Proffesiynol.

Faint o hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru sydd ei angen?

Rhaid i chi gadw cofnod cyflawniad o'r o leiaf 90 awr hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru rydych chi'n cwblhau yn ystod pob cyfnod cofrestru tair blynedd. Rhaid i chi hefyd gadw portffolio tystiolaeth o'ch dysgu oherwydd efallai y bydd gofyn i chi gyflwyno hwn at ddibenion archwilio.

Dylech chi drin y gofyniad o 90 awr fel isafswm. Mae eich cofnod cyflawniad hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru yn ffurfio rhan o'ch cais i adnewyddu eich cofrestriad sy'n digwydd pob tair blynedd. Dylai eich rhestr o 90 awr o hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru digwydd o fewn y cyfnod cofrestru tair blynedd.

Pa gofnodion y mae angen i mi eu cadw?

Dylech chi gadw eich cofnod hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru yn gyfoes yn eich cyfrif **GCGarlein**. Rhaid i bob cofnod cynnwys pryd y cwblhawyd yr hyfforddiant neu'r dysgu, ei hyd a'r ffyrdd y mae'ch dysgu wedi llywio eich ymarfer. Mae hyn yn golygu, ar gyfer pob cofnod yr ydych chi'n ei gofnodi, bod angen i chi gynnwys sut mae'r dysgu wedi cyfrannu at eich ymarfer.

Trwy ychwanegu'ch hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru'n rheolaidd i'ch cyfrif **GCGarlein**, bydd y broses adnewyddu'n gyflymach pan fyddwch chi'n dod i gwblhau eich cais adnewyddu. Gallwch ychwanegu hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru i **GCCarlein** unrhyw bryd ac nid oes rhaid i chi aros tan ddiwedd eich cyfnod adnewyddu.

Dylech chi drafod yr angen i gofnodi eich hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru gyda'ch cyflogwr. Bydd cynnwys eich rheolwyr trwy gydol eich cyfnod cofrestru yn ei gwneud yn haws iddyn nhw wirio'ch cofnod hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru adeg adnewyddu'ch cofrestriad.

Dylech chi gadw portffolio tystiolaeth i gefnogi'ch cofnod hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru. Gallai'r dystiolaeth yn y portffolio gynnwys tystysgrifau cymhwyster, tystysgrifau mynychu hyfforddiant, er enghraifft, neu grynodeb bras o ganlyniadau'r dysgu. Rydyn ni hefyd yn derbyn cadarnhad ac agendâu trwy'r e-bost o gynadleddau, fforymau neu ddigwyddiadau, os nad oes gennych chi unrhyw ddogfennau eraill.

Gallwn ni ofyn i chi gyflwyno'r portffolio fel rhan o'ch cais i adnewyddu'ch cofrestriad gan ein bod ni'n dewis ar hap canran o bobl ar y Gofrestr i'w harchwilio, lle byddwn ni'n edrych yn fanwl ar eu tystiolaeth ar gyfer eu hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru.

Os nad oes gennych chi gyflogwr, dylech chi ddal i gadw rhestr o'ch hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru a phortffolio tystiolaeth i'w hanfon atom ni os oes angen.

Pa weithgareddau sy'n cyfrif fel hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru?

Yn ôl ein Rheolau Cofrestru, gallwch bodloni'ch gofynion hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru trwy:

> "astudio, cyrsiau hyfforddi, seminarau, darllen, addysgu neu weithgareddau eraill y gellid disgwyl yn rhesymol y byddant yn ychwanegu at ddatblygiad proffesiynol y gweithiwr gofal cymdeithasol, neu'n cyfrannu at ddatblygiad y proffesiwn yn gyffredinol."

Mae llawer o ffyrdd i chi barhau i ddysgu a datblygu fel gweithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol, felly rydyn ni wedi osgoi bod yn rhy benodol yn fwriadol am y math o weithgareddau a fydd yn bodloni ein gofynion.

Dylai'r hyfforddiant a'r dysgu yr ydych yn eu dewis:

- wella eich gallu i ddarparu gwasanaethau o ansawdd da iawn
- bod o fudd i'ch anghenion datblygiad personol a'ch datblygiad gyrfa
- bod o fudd i'ch swydd bresennol
- helpu i chi gadw'n gyfoes gyda'r newidiadau mewn deddfwriaeth, polisi, ymchwil ac ymarfer
- cynnwys unrhyw hyfforddiant gorfodol neu addysg a dysgu proffesiynol parhaus y bu'n ofynnol i chi eu cyflawni
- gwneud y gorau o'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael i chi i ffurfio rhan o'ch datblygiad proffesiynol ehangach.

Dyma rhai enghreifftiau o weithgareddau dysgu y gallech chi eu cynnwys:

- cwblhau cymhwyster neu gwrs achrededig perthnasol
- asesu eich cymhwysedd
- ymgymryd â Dyfarniad Dysgu ac Addysg Proffesiynol Parhaus (DAPP)
- mynychu hyfforddiant mewn swydd, gweithdai, seminarau neu gynadleddau gan fyfyrio ar eich dysgu
- cwblhau modiwl e-ddysgu sy'n berthnasol i'ch ymarfer
- mynychu fforwm neu grŵp rhwydweithio proffesiynol gyda thystiolaeth o'ch dysgu (nid yw mynychu heb dystiolaeth glir o ddysgu yn ddigonol)
- cysgodi gwaith cydweithiwr mewn tîm, gwasanaeth neu broffesiwn cysylltiedig
- ymgymryd â gwaith ymchwil neu ddarllen strwythuredig sy'n gysylltiedig â'ch ymarfer, gyda thystiolaeth o'ch dysgu
- rhoi cyflwyniad neu arwain trafodaeth ar destun newydd rydych wedi ymchwilio iddo (gan felly roi tystiolaeth o'ch dysgu)
- cwblhau secondiad mewn maes newydd neu faes cysylltiedig perthnasol
- gwirfoddoli i weithio mewn gwasanaeth newydd, gyda thystiolaeth o'ch dysgu
- ymgymryd â chyfrifoldebau newydd neu wahanol gyda thystiolaeth o'ch dysgu.

Dylech chi anelu at amrywiaeth a chydbwysedd o wahanol weithgareddau dysgu. Ni fyddai'n dderbyniol, er enghraifft, bod eich holl hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru'n cynnwys darllen strwythuredig (dylai darllen cyfri am ddim mwy na 10 y cant o gyfanswm eich hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru). Cofiwch gofnodi sut mae pob gweithgaredd wedi cyfrannu at eich ymarfer. Ni fyddai gweithgareddau rheolaidd, fel goruchwylio neu gyfarfodydd tîm, fel arfer yn cyfrif fel hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru.

Beth yw cyfrifoldeb fy nghyflogwr?

Er mai chi sy'n bersonol gyfrifol am sicrhau eich bod yn bodloni'ch gofynion hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru, mae gan eich cyflogwr gyfrifoldeb i roi cymorth gweithredol i chi.

Mae hyn yn cynnwys:

- cefnogi diwylliant dysgu yn y gweithle lle byddwch yn cael cyfle i gael mynediad at ymarfer gorau, ei drafod, myfyrio arno a'i rannu
- sicrhau bod cyfleoedd ymsefydlu, hyfforddiant a dysgu sy'n eich cynorthwyo
- darparu goruchwyliaeth a gwerthusiad
- rhoi adborth adeiladol i chi ar eich perfformiad a'ch datblygiad.

Rydyn ni'n disgwyl bod yr hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru rydych yn ymgymryd ag ef yn addas ar gyfer eich rôl gofrestredig, a nodau ac amcanion eich cyflogwr a'ch gwasanaeth. Mae'n bwysig eich bod chi a'ch cyflogwr yn trafod a chynllunio sut y byddwch chi'n bodloni'ch gofynion.

Arweiniad ar gyfer pobl hunangyflogedig

Yn yr un modd â'r holl weithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol, bydd angen i chi fodloni ni adeg adnewyddu eich cofrestriad (neu os ydych chi wedi'i gynnwys yn yr archwiliad hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru adeg yr adnewyddu) eich bod wedi cwrdd â'r gofynion hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru.

Dylai'r gweithgareddau hyfforddiant a dysgu yr ydych chi'n ymgymryd â nhw wella eich meysydd arbenigedd a chefnogi eich gwaith, yn yr un modd ag y dylai ar gyfer y rheiny sydd â chyflogwr.

Pan fyddwch chi'n ychwanegu hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru trwy GCCarlein, ac ydych chi'n cael eich dewis ar gyfer archwiliad, gallwch chi naill ai cael eich gweithgareddau hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru wedi'u gwirio gan berson addas neu gyflwyno portffolio tystiolaeth nad oes modd ei ddychwelyd at ein Tîm Cofrestru. Os nad ydych chi'n sicr pwy gall wirio'ch hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru, cyfeiriwch at ein dogfen Arweiniad ar wirio a chymeradwyo cysylltwch â'n Tîm Cofrestru.

Arweiniad ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso

Mae'n ofynnol i bob weithiwr cymdeithasol a gymhwysodd ar ôl 1 Ebrill 2016, sy'n gweithio mewn swydd sy'n cynnwys ymgymryd â thasgau gwaith cymdeithasol, gwblhau'r Rhaglen Gadarnhau yn ystod y cyfnod tair blynedd gyntaf y maent wedi eu cofrestru gyda ni fel gweithiwr cymdeithasol. Bydd adnewyddu'ch cofrestriad, yn rhannol, yn ddibynnu ar hyn.

Y Rhaglen Gadarnhau yw rhan gyntaf y Fframwaith Dysgu ac Addysg Proffesiynol Parhaus (DAPP). Mae'n adeiladu ar eich cyfnod pontio i gyflogaeth ac mae'n bwysig o ran helpu chi i sefydlu diwylliant o ddysgu a datblygu trwy gydol eich gyrfa fel gweithiwr cymdeithasol. Gallwch chi ddefnyddio ymgymryd â'r Rhaglen Gadarnhau fel tystiolaeth o'ch hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru.

Arweiniad ar gyfer gweithwyr asiantaeth

Os ydych chi'n gweithio i asiantaeth, mae'n rhaid i chi fod yn ymwybodol mai gofyniad i adnewyddu cofrestriad yw hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru.

Mae'ch asiantaeth gyflogi a chomisiynydd y gwasanaeth neu'r cyflogwr lle rydych yn gweithio yn rhannu cyfrifoldeb am wneud yn siŵr bod gweithwyr yn addas a chymwys i ymarfer. Rhaid darparu cyfleoedd i'ch cefnogi i fodloni eich gofynion hyfforddiant a dysgu. Dylai cyfrifoldeb am oruchwylio a chynorthwyo cael ei amlinellu'n glir a bydd fel arfer yn cael ei ddarparu gan eich rheolwr llinell neu'r rheolwr goruchwylio lle rydych chi'n gweithio.

Gweithwyr rhan-amser

Mae'r gofynion hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru yr un fath ar gyfer pob person cofrestredig, ni waeth faint o oriau rydych yn gweithio (hynny yw 90 awr dros y cyfnod cofrestru tair blynedd). Os ydych chi'n weithiwr rhan-amser, dylech chi gael yr un cyfleoedd a chymorth gan eich cyflogwyr i chi fodloni'ch gofynion hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru â gweithwyr eraill.

Cofrestryddion nad ydynt yn ymarfer ar hyn o bryd

Efallai eich bod yn bryderus ynghylch bodloni'ch gofynion hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru oherwydd seibiannau o'r gwaith, fel seibiannau gyrfa, absenoldeb mamolaeth, salwch neu ddiweithdra.

Fodd bynnag, gall eich dysgu deillio o ffynonellau amrywiol (gweler ' Pa weithgareddau sy'n cyfrif fel hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru?' ar tudalen 4). Cyhyd ag y bo'r gweithgareddau rydych yn cwblhau a'ch dysgu'n cael ei gofnodi'n glir, bydd eich cofnod cyflawniad fel arfer yn dderbyniol.

Mae llawer o bobl sy'n mynd yn ôl i'r gwaith ar ôl absenoldebau hir yn cwblhau dysgu neu weithgareddau ymsefydlu i'w helpu i fynd yn ôl i'r gwaith. Mae pob un o'r rhain yn weithgareddau hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru posibl.

Os ydych chi'n pryderu ynglŷn â bodloni'ch gofynion hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru, dylech chi gysylltu â'n Tîm Cofrestru cyn gynted ag y bo modd i gael cyngor.

Sylwer bod rhaid i bob person cofrestredig gadarnhau, ac os oes angen, darparu tystiolaeth ei fod yn bwriadu ymarfer gofal cymdeithasol yng Nghymru yn ystod ei gyfnod cofrestru er mwyn aros ar y Gofrestr.

Pwyntiau allweddol i'w cofio

- Hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru yw eich cyfrifoldeb chi fel cofrestrydd
- Nid oes angen i hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru fod yn dasg anodd a beichus
- Dylai hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru fod yn ganlyniad dysgu a datblygiad a gyflawnwyd, yr ydych chi a'ch cyflogwr yn ei gydnabod
- Mae hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru yn rhoi hyder i unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, cydweithwyr a chyflogwyr eraill fod gweithwyr yn gymwys i aros ar y Gofrestr
- Mae hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru yn broses hyblyg i gydnabod cyflawniad unigol a helpu i godi safonau.
- Gellir ychwanegu hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru ar unrhyw adeg yn eich cyfrif **GCGarlein**

Adnoddau ychwanegol

Pecyn Cymorth Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer Rheolwyr a Gweithwyr Gofal Cymdeithasol, y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

Hanfodion Cofrestru

Canllawiau ymarfer i weithwyr cofrestredig

Y Man Dysgu

Gwefan iechyd a gofal cymdeithasol – Llywodraeth Cymru

Côd Ymarfer Proffesiynol